

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Strategaeth Hybu'r Gymraeg

2016 - 2021



Rhagair gan yr Aelod Arweiniol dros yr Iaith Gymraeg, y Cyng. Hugh Jones

Fel Aelod Arweiniol ar gyfer y Gymraeg yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam, mae'n bleser mawr gen i gyflwyno'r strategaeth 5 mlynedd hon i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y Fwrdeistref Sirol. Rwyf wedi ymrwymo'n bersonol i weithredu'r strategaeth hon, ac rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda'n holl bartneriaid i sicrhau bod ei gweledigaeth yn cael ei wireddu.

Mae'r strategaeth hon wedi cael ei chyflwyno ar adeg anodd iawn i lywodraeth leol ac yn cael ei gosod yn erbyn cefndir o lai o arian cyhoeddus ac ymgyrch fewnol i wneud arbedion sylweddol. Er gwaethaf hyn mae'r Cyngor yn barod i ymateb i'r her ac mae'n uchelgeisiol o ran ei awydd i gyflawni'r canlyniadau fel yr amlinellir yn y strategaeth hon. Gobeithiaf y bydd hyn yn sicrhau bod y nifer o siaradwyr Cymraeg yn cael ei gynnal o leiaf, gyda'r bwriad y bydd yn arwain at gynnydd yn y defnydd o Gymraeg a siaredir yn y Fwrdeistref Sirol, ac yn rhoi cyfle i breswylwyr Cymraeg gael byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Cyngor yn realistig o ran ei ddyheadau ac yn sylweddoli y bydd y gwaith sydd ei angen i gyflawni canlyniadau llwyddiannus yn cymryd amser. Fodd bynnag, mae'n parhau'n ymrwymedig i'r nod o ledaenu'r defnydd o'r Gymraeg ymhellach drwy'r Fwrdeistref Sirol. Rwy'n arbennig o awyddus i annog pobl ifanc i rannu'r dyhead hwn lle bydd ein trigolion o bob oedran yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd.

Rwy'n ddiolchgar i'n holl bartneriaid sydd wedi gweithio gyda'n gilydd i ddod â'r Strategaeth hon i fod a phwy fydd yn ein helpu i gyflawni hyn yn y blynyddoedd i ddod

Mae hwn yn gyfnod cyffrous a heriol ar gyfer yr iaith Gymraeg. Rwy'n benderfynol y bydd y strategaeth hon yn ddogfer fyw a fydd yn cyfrannu at greu Bwrdeistref Sirol sydd yn wirioneddol ddwyieithog.

Mae'r cynllun gweithredu sydd ynghlwm â'r strategaeth hon wedi'i ddiweddarau ar gyfer Blwyddyn 3 er mwyn ei unioni â chanllawiau Comisiynydd y Gymraeg a'i gysoni â Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg.

Y Cyngorydd Hugh Jones
Dirprwy Arweinydd

1. Ein Gweledigaeth

- 1.1 I hwyluso, cynyddu a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y Fwrdeistref Sirol a rhoi cyfle i breswylwyr fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno; i greu gwell dealltwriaeth o'r iaith a'r diwylliant Cymraeg ymysg preswylwyr Di-Gymraeg.

2. Cyflwyniad

- 2.1 Cafodd Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor ei ddisodli gan Safonau Iaith Gymraeg ar 30 Mawrth 2015, pan gyflwynodd Comisiynydd y Gymraeg Rybudd Cydymffurfio Terfynol i'r Cyngor, a oedd yn amlinellu'r 171 o Safonau y mae'n rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â nhw – mae copi ar gael [yma](#). Cymeradwywyd a mabwysiadwyd y strategaeth hon gan y Bwrdd Gweithredol ym mis Tachwedd 2016.

- 2.2 Mae'r Mesur yn cynnwys:

- rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru sy'n golygu na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- sefydlu rôl Comisiynydd y Gymraeg sydd â chyfrifoldeb am hyrwyddo'r iaith Gymraeg a gwella'r cyfleoedd sydd gan bobl i'w defnyddio;
- creu gweithdrefn ar gyfer cyflwyno dyletswyddau ar ffurf safonau iaith sy'n esbonio sut y disgwylir i sefydliadau ddefnyddio'r iaith Gymraeg a chreu hawliau ar gyfer siaradwyr Cymraeg;
- gwneud darpariaeth ynglŷn â hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a chynyddu'r defnydd ohoni mewn bywyd bob dydd;
- gwneud darpariaeth ynghylch ymchwilio i ymyrraeth gyda'r rhyddid i ddefnyddio'r iaith Gymraeg.

- 2.3 Mae'r Hysbysiad Cydymffurfio a chyflwyno'r Safonau yn golygu bod mwy o ofyniad i'r Cyngor sicrhau ei fod yn darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg— a hynny naill ai ar bapur, rhyngwrdd, cyfryngau cymdeithasol a ffyrdd rhyngweithiol neu sgysiau wyneb yn wyneb/ dros y ffôn. Os yw'r Cyngor yn methu â chydymffurfio â'r posibilrwydd y bydd mewn perygl o gael cosbau ariannol.

- 2.4 Mae'r dyletswyddau a ddaw yn sgil y Safonau yn berthnasol i'r meysydd gweithredol canlynol:

- darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg;
- llunio polisiau sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg;
- gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg;
- cadw cofnodion am yr iaith Gymraeg, ac yn olaf;
- hyrwyddo'r iaith Gymraeg

- 2.5 Mae Safon 145 yn nodi bod rhaid i bob awdurdod lleol gynhyrchu a chyhoeddi strategaeth 5 mlynedd sydd yn gosod sut y byddant yn hyrwyddo a hwyluso'r iaith Gymraeg yn ehangach yn eu hardal; hefyd mae gofyn i Gynghorau gefnogi ac annog ei ddefnydd o fewn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

- 2.6 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i hyrwyddo, cryfhau a llywio'r defnydd o'r Gymraeg, ac un o'r Egwyddorion Arweiniol yng Nghynllun y Cyngor (2014-17) yw "*Iaith Gymraeg - Cefnogi ac annog cwsmeriaid a staff i gyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg*". Yn 2017, gosododd y Cyngor weledigaeth, pwrpas ac egwyddorion newydd ar gyfer yr Awdurdod, sydd yn amlinellu sut y bydd yn ceisio darparu gwasanaethau yn y dyfodol.

O'r chwe phrif egwyddor, un yw "i sicrhau bod gwasanaethau a gwybodaeth ar gael yn gyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg."

- 2.7 Mae gan y Cyngor saith ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, un ysgol ddwyieithog ac un ysgol uwchradd Gymraeg. Mae'r Cyngor hefyd yn hyrwyddo treftadaeth a diwylliant Cymru gyda chyfres o ddigwyddiadau, cyngherddau ac arddangosfeydd drwy gydol y flwyddyn.
- 2.8 Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth ag ystod o fudd-ddeiliaid lleol i symud ymlaen â'i agenda iaith Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys bod yn aelod o Fforwm Iaith Fflint a Wrecsam a gweithio'n strategol gydag ystod o sefydliadau eraill a chyrrff cyhoeddus megis Menter Iaith Fflint a Wrecsam, Coleg Cambria, Urdd Gobaith Cymru a Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn rhannu enghreifftiau o arfer gorau, arbenigedd ac adnoddau.

3. Cyd-destun y Polisi

- 3.1 Er bod Safonau'r Iaith Gymraeg yn ddatblygiad cymharol ddiweddar, mae wedi bod yn ofynnol i awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill lunio Cynlluniau Iaith Gymraeg ers pasio Deddf yr Iaith Gymraeg yn 1993. Amlinellodd y Cynlluniau hyn eu bwriad i drin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.
- 3.2 Ers sefydlu Cynulliad Cymru cafwyd llu o bolisiâu a strategaethau wedi'u hanelu at gynyddu'r niferoedd sy'n gallu siarad Cymraeg a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith mewn bywyd bob dydd. Er enghraifft, yn 2003 cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gynllun cenedlaethol i greu Cymru ddwyieithog o'r enw Iaith Pawb.
- 3.3 Roedd y cyflwyniad i'r cynllun yn datgan bod '*Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn bod yr iaith Gymraeg yn rhan annatod o'n hunaniaeth genedlaethol. Mae'r iaith Gymraeg yn rhan hanfodol ac oesol o hanes, diwylliant a gwead cymdeithasol ein cenedl. Rhaid i ni barchu'r etifeddiaeth honno a gweithio i sicrhau nad yw'n cael ei cholli ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.*'
- 3.4 Dyma oedd y tro cyntaf yn hanes hir y genedl i lywodraeth ymrwymo i'r egwyddor o greu Cymru wirioneddol ddwyieithog. Y weledigaeth a gyflwynir yn *Iaith Pawb* yw gwlad '*Ile gall pobl ddewis byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg neu Saesneg a lle mae presenoldeb y ddwy iaith yn ffynhonnell amlwg a hyglyw o falchder a chryfder i bob un ohonom.*'
- 3.5 Ym mis Ebrill 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Strategaeth Iaith Gymraeg o'r enw - *Iaith fyw: iaith byw 2012-2017*. Mae'r strategaeth yn adlewyrchu gweledigaeth y llywodraeth ar gyfer cynyddu nifer y bobl sy'n siarad ac yn defnyddio'r iaith ac yn adeiladu ar y weledigaeth a amlinellir yn *Iaith Pawb*.
- 3.6 Mae amcanion y strategaeth yn cynnwys cynyddu darpariaeth addysg a gweithgareddau cyfrwng Cymraeg i blant a phobl ifanc, cryfhau'r Gymraeg yn y gymuned, cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio Cymraeg yn y gweithle, gwasanaethau Cymraeg gwell i ddinasyddion ac i gryfhau seilwaith yr iaith, sy'n cynnwys technoleg ddigidol.
- 3.7 Wrth benderfynu ar amcanion ei strategaeth ei hun, mae'r Cyngor wedi dewis mabwysiadu'r amcanion a amlinellir yn y strategaeth Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu gydag amcanion

enedlaethol. Mae'r camau gweithredu i gefnogi'r amcanion hyn wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu ar ddiwedd y ddogfen hon - gweler adran 5.

- 3.8 Un o'r gyrwyr allweddol yn Strategaeth Gymraeg Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg, yw pwysigrwydd system addysg Gymraeg gref hirdymor, ar gyfer hybu'r defnydd o Gymraeg ar draws amrywiaeth o feysydd cymdeithasol. Mae hon yn weledigaeth y mae'r Cyngor yn ei chefnogi ac yn ei annog yn fawr, buddsoddi mewn addysg cyfrwng Cymraeg.
- 3.9 Mabwysiadodd y Cyngor y fersiwn ddiweddaraf o'i Gynllun Cymraeg mewn Addysg 2017 – 2020 ym mis Mawrth 2019 yn dilyn cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru. Mae hon yn ddogfen strategol allweddol sy'n manylu nodau'r Cyngor o ran gwella ansawdd a darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn ddogfen allweddol ar gyfer y Cyngor gan ei fod yn nodi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer cynyddu a normaleiddio defnydd o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc, ac mae'n ganolog i lwyddiant cyffredinol y strategaeth. Gellir gweld copi yma https://www.wreccsam.gov.uk/assets/pdfs/education/wesp_w.pdf
- 3.10 Lluniwyd y Fframwaith Strategol *Mwy na Geiriau* gan Lywodraeth Cymru yn 2012, gyda'r nod o gryfhau gwasanaethau'r Gymraeg ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Mae'r fframwaith yn darparu ymagwedd systematig i wella gwasanaethau ar gyfer y rhai sydd angen eu gofal drwy gyfrwng y Gymraeg. I lawer o siaradwyr Cymraeg, mae'n cydnabod bod angen i'r gallu i ddefnyddio eich iaith eich hun gael ei ystyried yn gydran greiddiol i ofal ac nid fel rhywbeth dewisol ychwanegol. Mae llawer o ddefnyddwyr gwasanaethau yn ddiameddiffyn iawn, felly mae rhoi cyfrifoldeb arnynt i ofyn am wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn annheg. Yn ganolog i'r strategaeth mae'r her o ddatblygu'r 'Cynnig Gweithredol', sef bod aelodau o staff yn cynnig gwasanaethau Cymraeg i gleifion, yn hytrach nag aros i gleifion ofyn amdanynt. Diweddarwyd y strategaeth yn 2016 gyda'r nod o sicrhau y bydd GIG Cymru, y gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol wedi prif ffrydio'r iaith Gymraeg ar gyfer bron pob agwedd ar eu busnes dyddiol.
- 3.11 Cafodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ei chyhoeddi gan Lywodraeth Cymru i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gofyn i gyrff cyhoeddus feddwl yn fwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd, edrych i atal problemau a chymryd ymagwedd fwy cydgysylltiedig. Mae'r Ddeddf yn rhoi saith nod lles ar waith, gan gynnwys '*cymdeithas sy'n hybu ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden.*'
- 3.12 Yn olaf, mae cyflwyniad Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg, gyda'r nod o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2051, wedi cael ei groesawu gan y Cyngor, er ei fod yn cytuno â Llywodraeth Cymru ei fod yn darged uchelgeisiol.

4. Proffil y Gymraeg yng Nghyngor Sir Wrexham

- 4.1 Gellir dod o hyd i fanylion llawn am broffil siaradwyr Cymraeg yn y sir ar https://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/welsh language standards/welsh lang in wrexham county borough_w.pdf

Mae canlyniad Cyfrifiad 2011 yn dangos fod 16,659 o bobl yn y Fwrdeistref Sirol yn gallu siarad Cymraeg, sef 12.9% o'r boblogaeth. Y cyfanswm o bobl oedd yn siarad Cymraeg yn 2001 oedd 18,102, sef 14.4% o'r boblogaeth. Dros gyfnod o ddeg mlynedd bu gostyngiad o 1,443 yn y nifer o siaradwyr Cymraeg yn y sir, gostyngiad o 1.7%.

- 4.3 Mae data'r Cyfrifiad 2011 yn datgelu bod y canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yn byw yn ardaloedd etholiadol Dyffryn Ceiriog (31.2%), Ponciau (28.2%) a Phant (26.6%). Yr ardaloedd etholiadol gyda'r canrannau isaf o siaradwyr Cymraeg yw Wynnstay (7.7%), Cartrefle (8.3%), Smithfield (8.3%), yr Orsedd (8.5%) ac Owrtyn (8.5%).
- 4.4 Mae'r ardaloedd mwyaf Seisnigaidd wedi'u lleoli ar hyd y ffin â Lloegr ac mewn rhannau o dref Wrecsam a'i chyffiniau.

5. Cynllun Gweithredu i hyrwyddo'r Iaith Gymraeg yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam erbyn 2021

TARGED CYFFREDINOL:

Cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol yn ystod oes y Strategaeth hon	Cyfrifiad 2001	Cyfrifiad 2011	Ar ôl 5 mlynedd (canlyniadau Cyfrifiad 2021)
	14.4% o'r boblogaeth yn rhugl yn y Gymraeg	12.9% o'r boblogaeth yn rhugl yn y Gymraeg	14.4%

- 5.1 Nod y Cynllun Gweithredu canlynol yw adeiladu ar y cynnydd a wnaed gan y Cyngor a'i bartneriaid wrth ddatblygu'r iaith Gymraeg yn y Fwrdeistref Sirol dros nifer o flynyddoedd. Mae gan Wrecsam ddiwylliant Cymreig hir a balch ac mae eisiau adeiladu ar hyn i greu ymdeimlad o falchder yn yr iaith a diwylliant Cymreig a cheisio annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y Fwrdeistref Sirol. Mae hefyd eisiau ymgysylltu â phobl nad ydyn nhw'n Gymraeg er mwyn creu cyd-ddealltwriaeth o bwysigrwydd yr iaith a hawliau'r rhai sy'n dymuno byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n gynllun 5 mlynedd sy'n canolbwyntio ar gynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg, cynyddu'r defnydd ohoni ym mhob agwedd ar gymuned a bywyd cyhoeddus a chodi ymwybyddiaeth o'i phwysigrwydd fel rhan hanfodol o hunaniaeth ddiwylliannol a chymeriad y rhan hon o Ogledd Ddwyrain Cymru. Mae hefyd yn dangos ffordd newydd y Cyngor o weithio o ran y Gymraeg drwy sicrhau na fydd cwsmeriaid sy'n dymuno derbyn gwasanaethau drwy gyfrwng Cymraeg dan anfantais. Mae'r Cynllun Gweithredu yn adlewyrchu'r agwedd o bartneriaeth sy'n hanfodol i gyflawni'r nodau hyn. Er mai'r

awdurdod lleol fydd y partner arweiniol yn y rhan fwyaf o weithgareddau arfaethedig, bydd rhai sefydliadau eraill yn well ar gyfer ymgymryd â'r rôl hon o bryd i'w gilydd.

5.2 Rydym erbyn hyn yn nhrydedd flwyddyn y strategaeth 5 mlynedd. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r cynllun gweithredu ar gyfer y strategaeth eleni, a blynyddoedd 4 a 5, wedi'i ddiwygio a'i ddiweddarau er mwyn adlewyrchu'r themâu a amlinellir yn Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru, Cymraeg: 2050 Miliwn o Siaradwyr Cymraeg.

5.3 Yn hytrach na nodau, mae'r strategaeth erbyn hyn yn amlinellu themâu clir ar gyfer cefnogi a chynyddu'r Gymraeg yn y Fwrdeistref Sirol. Y themâu hyn yw:

Thema 1: Cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg

Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg

Thema 3: Creu amodau ffafriol ar gyfer llwyddiant

5.4 Mae'r Cyngor yn ymwybodol mai un o'r ffyrdd fwyaf sylfaenol o gyflawni ei amcan o gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg yw parhau i fuddsoddi mewn addysg cyfrwng Cymraeg a darparu'r plant hynny sydd eisiau addysg cyfrwng Cymraeg gyda'r gefnogaeth a'r anogaeth maent eu hangen i ffynnu, a normaleiddio'r defnydd o Gymraeg.

5.5 Cydnabyddir nad yw nifer o blant a phobl ifanc sy'n siarad a dysgu Cymraeg yn cael llawer o gyfleoedd i siarad yr iaith mewn gosodiad cymdeithasol, arferol. Mae'n hanfodol bod y Cyngor yn darparu ffyrdd i blant a phobl ifanc gael y cyfle i siarad Cymraeg tu hwnt i amgylchedd yr ysgol a'i ffrydio i'w bywydau bob dydd.

5.6 Wrth i'r Safonau gael eu sefydlu a'u ffrydio i'r ffordd mae'r Cyngor yn gweithredu, mae mwy o angen gweithwyr sy'n siarad Cymraeg. Mae'r Cyngor wedi profi anawsterau wrth recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg yn y gorffennol, ac yn croesawu cyflwyniad y Safonau sy'n rhoi ysgogiad ychwanegol o ran ei ymdrechion i recriwtio staff Cymraeg a darparu gwasanaeth gwirioneddol ddwyieithog. Mae gyriant ac ymrwymiad ar frig y sefydliad hefyd yn hanfodol, a bydd llwyddiant yn ddibynnol ar ymrwymiad gweithwyr i sefydlu'r Gymraeg ym mhopeth a wnânt.

5.7 O fewn y gymuned, rydym angen creu amodau addas ac amgylchedd lle gall y Gymraeg a'i siaradwyr ffynnu. Rydym eisiau gweld y Gymraeg fel rhan arferol o fywyd bob dydd, gydag ewyllys da a chynnydd yn ei defnydd. Rhaid i'r iaith fod yn berthnasol i bawb yn y Fwrdeistref Sirol, os ydynt yn siarad yr iaith a'i pheidio. Rydym eisiau ysbrydoli parch a gwerthfawrogiad i'r iaith ymysg y bobl sy'n symud i'r rhan hon o Gymru i fyw, unai o'r DU neu ymhellach i ffwrdd. Bydd ein prosesau cynllunio a'n strategaethau economaidd yn cefnogi hyn, yn ogystal â gwelliannau mewn technoleg ddigidol. Yn olaf, rydym eisiau creu enw da o fewn Cymru, fel Bwrdeistref Sirol gyda diwylliant o ddigwyddiadau amrywiol ac eang sy'n dathlu a chydabod safle unigryw'r Gymraeg, treftadaeth a diwylliant o fewn Wrecsam a Chymru gyfan.

Thema 1:	Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg				
Canlyniad:	Mwy o staff yn siarad Cymraeg yn y Cyngor				
Dangosydd:	Cynnydd, fesul blwyddyn, yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Cyngor				
Gweithgaredd:	Arweinydd	Tymor Byr (2017)	2018/2019	Sylwadau	Tymor Hir (2021)
1. Sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio'n llawn â'i Safonau Iaith Gymraeg.	CBSW	Parhau am y tro yn eu ffurf bresennol. Disgwyl am ganlyniad yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar gyfer y camau nesaf	Dim newid o ganlyniad i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn. Penodwyd Comisiynydd Iaith Gymraeg newydd.	Mae'r Cyngor yn parhau i weithio tuag at gydymffurfio â'i Safonau. Ar 1.4.19 penodwyd y Comisiynydd Iaith Gymraeg newydd.	Cynnal
2. Cadw rôl Aelod Arweiniol sy'n gyfrifol am yr Iaith Gymraeg.	CBSW	Ar hyn o bryd y Cynghorydd Hugh Jones	Cynnal	Cynhaliwyd	Cynnal
3. Adolygu prosesau recriwtio a dethol i ganfod a delio â phroblemau recriwtio siaradwyr Cymraeg i swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol.	CBSW – Adran AD	Erbyn Mawrth 2017	Mae'r Cydlynnydd Iaith Gymraeg wedi diwygio'r ffurflen rheoli swyddi gwag a'i hanfon at y Rheolwr Adnoddau Dynol i'w hystyried. Unwaith y caiff ei mabwysiadu bydd hyn yn cryfhau'r broses rheoli swyddi gwag a bydd yn rhaid i reolwyr sicrhau eu bod yn gallu darparu gwasanaeth yn yr iaith Gymraeg.	Camau pellach: Cydlynnydd Iaith Gymraeg i fod yn ymwybodol o'r holl rolau newydd. Gweithio'n agosach ag adrannau ac AD i hysbysebu a hyrwyddo swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol.	Yn parhau
4. Ceisio cynyddu'r nifer o swyddi [dim ysgolion] sy'n cael eu hysbysebu yn y Cyngor lle mae'r Gymraeg yn hanfodol	CBSW - Adran AD	4	Hysbysebodd y Cyngor 267 o swyddi'n allanol (ac eithrio ysgolion), roedd 264 ohonynt	Fel uchod. Bydd y ffurflen ddiwygiedig yn sicrhau bod	12

a'u llenwi gyda siaradwyr Cymraeg sydd wedi cymhwyso'n addas.			yn rhai lle'r oedd y Gymraeg yn ddymunol a 3 lle'r oedd y Gymraeg yn hanfodol sy'n 1.1% o'r holl swyddi.	ystyriaeth lawn a phriodol wrth benderfynu a ddylai swydd gael ei hysbysebu fel un lle mae'r Gymraeg yn hanfodol.	
5. Pan nad yw swyddi wedi eu dynodi fel swyddi lle mae'r 'Gymraeg yn hanfodol' bydd yr holl swyddi sy'n weddill yn nodi'r Gymraeg 'yn ddymunol' a bydd hysbysebion yn nodi y croesewir ceisiadau gan siaradwyr Cymraeg.	CBSW - Adran AD	O Ebrill 2017	Monitro cydymffurfiaeth	Mae hyn wedi'i gynnwys ym Manylion yr Unigolyn.	Yn parhau
6. Creu swydd Cydlynedd yr iaith Gymraeg.	CBSW	Cwblhawyd – dyddiad dechrau 3.4.17	Cynnal	Cynnal	Cynnal
7. Sefydlu pencampwyr yr iaith Gymraeg ym mhob adran.	CBSW	O Fai 2017	Cynnal cyswllt. Cydlynedd iaith Gymraeg i weithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer cyngor ac arweiniad.	Yn ei le. Pryd a phan fo angen penodi o'r newydd mae trefniadau yn eu lle i sicrhau hynny. Byddant yn cael eu briffio'n llawn am y swydd a'u cyfrifoldebau cyn ymgymryd â'r swydd.	Cynnal
8. Cynyddu nifer y staff sy'n cael mynediad i'r hyfforddiant iaith Gymraeg sy'n cael ei ddarparu gan y Cyngor.	CBSW – tîm hyfforddi	46 1.6% o staff nad ydynt yn dysgu	Y ffigwr gwirioneddol ar gyfer 2018/19 oedd 41 - 1.5% o staff nad ydynt yn dysgu *.	Ceisio cynyddu.	60
9. Gosod Cysill a Cysgair [y gwiriwr	CBSW - TG	Cwblhawyd	Tanysgrifiad blynyddol.	Bydd hwn ar gael i'r	Yn parhau

sillafu a gramadeg Cymraeg] ar gyfer siaradwyr Cymraeg a darparu hyfforddiant ar gyfer ei ddefnyddio.			Awtomatig ar gyfer swyddi newydd lle mae'r Gymraeg yn hanfodol.	holl staff ei lawrlwytho drwy'r ganolfan meddalwedd. Crëwyd fideo ar SAM yn egluro i staff sut i'w lawrlwytho'n gyflym.	
10. Bod yr holl staff wedi cwblhau'r modiwl e-ddysgu Ymwybyddiaeth o'r laith Gymraeg.	CBSW	Erbyn Medi 2017	Bydd yn rhan orfodol o'r broses PRD. 931 o staff wedi cwblhau'r model sy'n cyfateb i 33.8% o staff.	Ceisio cynyddu. Bydd pob Aelod bellach yn cael mynediad i'r modiwl.	Yr holl staff

Thema 1:		Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg			
Canlyniad:		Mwy o blant ar lefel cyn-ysgol yn dysgu Cymraeg			
Dangosyddion:		Cynydd yn nifer y plant sy'n mynd i grwpiau chwarae/clybiau Cymraeg cyn-ysgol			
Gweithgaredd	Arweinydd	Tymor Byr (2017)	2018/2019	Sylwadau	Tymor Hir (2021)
1. Gweithio gyda Mudiad Ysgolion Meithrin, Cylch Ti a Fi a Dechrau'n Deg i sicrhau bod darpariaeth ddigonol o fewn cyrraedd hawdd i'r prif ardaloedd poblog.	CBSW – Adran Addysg	Cynnal niferoedd	Gweithio gyda Menter Iaith Fflint a Maelor i gynnig ymwybyddiaeth a chefnogaeth iaith i staff a gwirfoddolwyr lleoliadau gofal plant / grwpiau plant / oedolion sy'n gofalu am blant oed ysgol, gan eu gwneud yn fwy ymwybodol o'r adnoddau hyn sydd ar gael a rhoi cyngor ac arweiniad ar sut i'w defnyddio i ddylanwadu ar ymddygiad yn eu man gwaith. AALL i ymateb i'r 'cynnig gofal plant' arfaethedig	Mae'r Cyngor yn parhau i hyrwyddo'r 'cynnig gofal plant'.	Sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni'r galw
2. Gweithio gyda'r uchod i hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg a darparu'r wybodaeth berthnasol i rieni plant cyn-ysgol iddynt wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth.	CBSW mewn partneriaeth â MIFFAW a'r sefydliadau a restrir uchod	Creu taflen erbyn Ebrill 2017	Paratowyd taflen - 'Addysg Cyfrwng Cymraeg: y gorau o ddau fyd'. CBSW i hyrwyddo'r daflen. Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu cynllun 'Cymraeg i Blant' Llywodraeth Cymru.	Mae'r Cyngor yn diweddarau'r daflen/llyfryn ac mae fideo newydd i hyrwyddo'r cynllun yn cael ei baratoi.	Diweddarau ac adolygu'n flynyddol
3. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn grwpiau chwarae a meithrinfeydd dydd sy'n gyfrwng Saesneg yn bennaf.	CBSW – Adran Addysg	Creu rhestr o feithrinfeydd a sefydlu llinell sylfaen	Yn unol â CSGA. Cynlluniau gweithredu'n weithredol erbyn Rhagfyr 2017. Mae'r gwaith yn cefnogi <i>Cymraeg 2050</i> a'r Mesur Cenedlaethau'r Dyfodol.	Nid yw'r cam hwn yn y CSGA presennol. Mae cynyddu'r niferoedd sy'n mynychu darpariaeth	Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg

				cyfrwng Cymraeg yn CSGA a gwneir hyn drwy waith y Mudiad Meithrin.	
4. Darparu cymorth i ddarparwyr gofal dydd cyn-ysgol sy'n awyddus i gynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg	CBSW – Plant a Phobl Ifanc a'r Adran Addysg	Sefydlu'r galw	O Hydref 2018: Mae arian ar gyfer y flwyddyn eisoes wedi'i drosglwyddo i'r Mudiad Meithrin. Yn 2018 mae cynnydd o +4.3% yn nifer y disgyblion sy'n trosglwyddo o'r cylchoedd meithrin i addysg cyfrwng Cymraeg o'i gymharu â 2016.	Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ym Morras erbyn Medi 2021.	Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
5. Cynnal y cynnydd o ran iaith o'r Cylchoedd Meithrin i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg.	CBSW drwy CSGA	100%	100%	100%	100%

Thema 1:	Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg				
Canlyniad:	Cynnydd yn nifer y plant sy'n dysgu Cymraeg yn ysgolion y sir				
Dangosydd:	Mwy o blant yn gadael ysgol yn gallu siarad Cymraeg				
Gweithgaredd:	Arweinydd	Tymor Byr (2017)	2018/2019	Sylwadau	Tymor Hir (2021)
1. Gweithredu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA).	CBSW – Adran Addysg	Gweithredu	Mabwysiadwyd y cynllun.	Parhau. Mae hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at Strategaeth Llywodraeth Cymru - Cymraeg: Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.	Cynyddu nifer y rhai sy'n gadael ysgol sy'n gallu siarad Cymraeg.

Thema 1:	Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg				
Canlyniad:	Mwy o ddefnydd o'r Gymraeg o fewn ysgolion yn cynyddu				
Dangosyddion:	Mwy o blant yn gadael ysgol yn gallu siarad Cymraeg Mwy o blant yn dysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg				
Gweithgaredd:	Arweinydd	Tymor Byr (2017)	2018/2019	Sylwadau	Tymor Hir (2021)
1. Gweithredu'r Siarter Iaith ar draws bob Ysgol cyfrwng Cymraeg a gweithio tuag at gyrraedd statws Aur.	CBSW – Adran Addysg	Parhau	Arian	Gweithio tuag at Aur ym mhob ysgol.	Aur ym mhob ysgol
2. Campws Cymraeg ym mhob ysgol cyfrwng Saesneg.	CBSW Adran Addysg.	Amherthnasol	98% o ysgolion yn gweithio tuag at Gampws Cymraeg. Allan o 9 ysgol a aseswyd eleni mae 3 wedi cyrraedd safon efydd. Byddwn yn gwybod y ffigurau gwirioneddol ar gyfer pob ysgol arall ar ddiwedd y flwyddyn ysgol.	Ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20 bydd cynnydd yn y rhai a aseswyd ac sy'n gweithio tuag at gyrraedd y safon efydd.	100%

Thema 2:	Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg				
Canlyniad:	Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn siopau a busnesau				
Dangosyddion:	Canran staff gwasanaeth cwsmeriaid yng nghanol y dref â sgiliau Cymraeg rhesymol Cynyddu nifer y cwsmeriaid sy'n gofyn am wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn y Fwrdeistref Sirol				
Gweithgaredd:	Arweinydd	Tymor Byr (2017)	2018/2019	Sylwadau	Tymor Hir (2021)
1. Cynnal arolwg i sefydlu sgiliau Cymraeg gweithwyr yng nghanol y dref a siopau/bwytai/busnesau'r Fwrdeistref Sirol.	CBSW mewn partneriaeth â MIFFAW a Fforwm Canol y Dref.	Dylunio a chynnal arolwg.	Gweithio gyda'r busnesau hynny oedd yn gweld manteision darparu gwasanaethau yn Gymraeg i gymryd rhan yn y 'cynllun Cymraeg mewn busnes'	Mae'r Swyddog Cymraeg Byd Busnes yn MIFFAW wedi cysylltu â busnesau sydd â diddordeb a bydd yn gweithio gyda nhw i ddefnyddio mwy o Gymraeg.	Sefydlu proses arolwg reolaidd
2. Casglu gwybodaeth am ddarpariaeth iaith Gymraeg mewn busnesau yn Wrecsam a'i rhannu'n eang.	CBSW mewn partneriaeth â MIFFAW a Fforwm Canol y Dref.	Cynnal proses fapio.	Mae MIFFAW wedi penodi Swyddog Datblygu 'Cymraeg Byd Busnes'. Ymgych ar y cyd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan fusnesau lleol.	Fel uchod. Darparodd y Swyddog Cymraeg Byd Busnes weithdy yn Nhŷ Pawb i hyrwyddo manteision defnyddio Cymraeg yn y gweithle. Roedd y digwyddiad yn llwyddiant enfawr ac roedd nifer fawr o fusnesau a masnachwyr lleol yno. Mae bwriad i gynnal digwyddiadau tebyg ar gyfer gweddill y	Adolygu bob dwy flynedd

				flwyddyn.	
3. Rhannu enghreifftiau o arfer gorau yn y sector cyhoeddus o safbwynt darparu gwasanaeth yn yr iaith Gymraeg.	CBSW mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus eraill yn y Fwrdeistref Sirol	Parhau	Mae'r Cydlynnydd Iaith Gymraeg yn rhannu enghreifftiau o arfer da ym mhob sector yn ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg. Gwneir hyn yn bennaf drwy'r cyfryngau cymdeithasol ond hefyd trwy gyfathrebu mewnol a blog newyddion y Cyngor.	Defnyddio canlyniadau Adroddiad Sicrwydd Blynnyddol Comisiynydd yr Iaith Gymraeg i efelychu arfer da o fannau eraill a'i fabwysiadu yn Wrecsam.	Yn parhau
4. Menter Iaith Fflint a Maelor i ddod yn aelod o Fforwm Canol y Dref.	CBSW mewn partneriaeth â MIFFAW a Fforwm Canol y Dref	Erbyn Medi 2017	Cytunwyd na fyddant yn dod yn aelod ond byddant yn ymgysylltu ac yn cynghori ar faterion sy'n berthnasol i'r Gymraeg pan fo angen.	Amherthnasol	
5. Sicrhau bod yr holl arwyddion newydd a rhai sy'n cael eu cyfnewid gan CBSW yn cydymffurfio â'r Safonau Iaith Gymraeg.	CBSW – pob adran	Yn parhau	Yn 2017/18 roedd y Cyngor yn destun archwiliad manwl ynglŷn â nifer o achosion honedig o ddiffyg cydymffurfio. Cyhoeddodd tîm yr Iaith Gymraeg ganllaw newydd ar gyfer cynhyrchu arwyddion Cymraeg cywir. Rhannwyd y ganllaw yn eang drwy ein bwletin staff a gydag Aelodau. Bu'r tîm ym mhob un o'r Timau Rheoli Adrannol i dynnu sylw at bwysigrwydd cydymffurfio ac i gynnig cyngor ac arweiniad. Cynhaliwyd archwiliad o'n canolfannau adnoddau,	Parhau i fonitro'n agos lefel cydymffurfio o ran arwyddion. Mynychu cyfarfodydd Timau Rheoli Adrannol bob 6 mis.	Yn parhau

			swyddfeydd ystâd tai ac adeiladau eraill y Cyngor yn Ionawr 19. Yn Rhagfyr 18 cyflwynwyd diwygiad i gontractau'r holl gontractwyr trydydd parti o dan y fframwaith 'cynnal priffyrdd'. Cytunwyd y bydd hwn yn cael ei anfon hefyd at bob contractwr sy'n gysylltiedig â chynnal tai ac adeiladau, adnoddau ayb.		
6. Sicrhau bod CBSW yn darparu ei holl ddeunydd cyfathrebu â'i drigolion yn unol â'r Safonau Iaith Gymraeg.	CBSW – yr holl staff	Yn parhau	Parhau – delio'n effeithiol ag unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio. Diwgiwyd y modiwl e-ddysgu ar ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg i gynnwys gwybodaeth am Safonau'r Iaith Gymraeg. Mae hwn yn fodiwl gorfodol ar gyfer yr holl staff nad ydynt yn dysgu. Paratowyd cardiau gwybodaeth maint poced ar gyfer aelodau newydd o staff yn manylu ar ein cyfrifoldebau wrth gyfathrebu â'r cyhoedd.	Cydymffurfio ag arwyddion i'w ychwanegu at fodiwl ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg.	Yn parhau
8. Creu taflen wedi'u hanelu'n benodol at siopau a busnesau er mwyn hyrwyddo manteision darparu gwasanaethau dwyieithog a chynyddu eu defnydd o'r Gymraeg.	CBSW mewn partneriaeth â Choleg Cambria MIFFAW a Chyngor Sir y	Erbyn Ebrill 2017	CBSW i weithio gyda'r Swyddog Datblygu 'Cymraeg Byd Busnes'. Mae'r rhain yn cael eu darparu gan Cymraeg Byd Busnes, mae Arwyddion 'Ar Agor', 'Ar Gau',	Gwaith yn parhau	Cynnal y cymorth i fusnesau

	Fflint		bwydlenni, rhestri prisiau ayb dwyieithog ar gael.		
--	--------	--	--	--	--

Thema 2:	Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg				
Canlyniad:	Mwy o blant â'r gallu a'r hyder i siarad Cymraeg mewn lleoliad cymdeithasol				
Dangosydd:	Mwy o blant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfrwng Cymraeg wedi'u trefnu				
Gweithgaredd:	Arweinydd	Tymor Byr (2017)	2018/2019	Sylwadau	Tymor Hir (2021)
1. Cynyddu nifer y plant a'r bobl ifanc yn y Fwrdeistref Sirol sy'n aelodau o'r Urdd.	CBSW mewn partneriaeth â'r Urdd.	641	833	Niferoedd o Fedi i Awst. 2017/18 1,144 2018 – hyd yma – 898	1000
2. Casglu gwybodaeth am nifer y plant o ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n cymryd rhan bob blwyddyn yn Eisteddfod yr Urdd.	CBSW mewn partneriaeth â'r Urdd ac Ysgolion y Fwrdeistref Sirol	Nodi niferoedd	Disgwyl am ymateb gan yr Urdd.		Cynydd
3. Parhau i ariannu gweithiwr ieuencid yr Urdd a cheisio cynyddu nifer y rhai sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau cyfrwng Cymraeg y cytunwyd arnynt.	CBSW Adran Addysg.	Cynnal	Cyflogwyd gweithiwr ieuencid yr Urdd ar gytundeb blwyddyn am 3 diwrnod yr wythnos.	Ceisio cynnal y swydd hon a'r cyllid.	Swydd barhaol.
4. Cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn cyfleoedd gwirfoddoli drwy gyfrwng y Gymraeg.	CBSW ar y cyd ag ysgolion, AVOW, grwpiau chwaraeon lleol a Choleg Cambria.	Cynnal adolygiad	Gweithio gyda'r Urdd i ddatblygu cynllun i gynyddu niferoedd.	Ehangu hyn i gynnwys holl aelodau'r MIFFAW.	Cynyddu niferoedd a chyfleoedd.
5. Cynyddu nifer y disgyblion sy'n	CBSW – Adran	Cynnal	Ceisio cael hyd i leoliadau lle		Cynyddu

ennill Gwobr Efydd ac Arian Dug Caeredin yn Ysgol Morgan Llwyd.	Addysg.	adolygiad	siaredir Cymraeg ar gyfer elfen gwirfoddoli'r wobwr. 2016/2017: Efydd 38 Arian 15 Aur 1 2017/2018: Efydd 42 Arian 19	Disgwyl am ffigurau ar gyfer 2018/19.	niferoedd.
6. Cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan yng ngorymdaith Dydd Gŵyl Dewi.	MIFFAW mewn partneriaeth â CBSW.	500	Nid yw 1,000 yn ymddangos yn uchelgeisiol yn y tymor hir. Roedd tua 1,000 yn bresennol yn 2018. Fodd bynnag, yn 2019 roedd dros 3,500 o bobl ar gyfer yr orymdaith a digwyddiad Tŷ Pawb.	Adeiladu ar lwyddiant digwyddiad 2019 a digwyddiad hyd yn oed yn fwy a gwell ar gyfer 2020. Ystyried adolygu'r ffigur tymor hir yn dilyn digwyddiad 2020.	1000 o leiaf.
7. Cynnal arolwg i sefydlu'r angen am gynnal gwersi nofio trwy gyfrwng y Gymraeg.	CBSW mewn partneriaeth â Freedom Leisure	Recriwtio hyfforddwr sy'n siarad Cymraeg erbyn Mawrth 2017	Mae'r hyfforddwr Cymraeg bellach wedi gadael. Yn 2018 cyfarfu'r tîm Iaith Gymraeg â Freedom Leisure er mwyn recriwtio hyfforddwr Cymraeg.	Cytunwyd y bydd Freedom Leisure yn hysbysebu am hyfforddwyr Cymraeg. CBSW i helpu i hyrwyddo hyn.	Bod gwersi nofio ar bob lefel yn cael eu darparu yn Gymraeg neu'n ddwyieithog os oes galw.

Thema 2:	Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg				
Canlyniad:	Codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd i oedolion a phobl hŷn ddysgu Cymraeg				
Dangosydd:	Mwy o bobl yn y Fwrdeistref Sirol yn siarad Cymraeg				
Gweithgaredd:	Arweinydd	Tymor Byr (2017)	2018/2019	Sylwadau	Tymor Hir (2021)
1. Darparu dolenni i wefannau sydd â dulliau addysgu arlein	CBSW mewn partneriaeth â MIFFAW Coleg Cambria a Chlwb DAW Wrecsam	Sefydlwyd rhestr o ddarparwyr	Mae'r Cydlynnydd Iaith Gymraeg yn rhannu'n gyson gyfleoedd i ddysgu Cymraeg yn lleol drwy'r cyfryngau cymdeithasol a blog newyddion y Cyngor. Hefyd mae rhestr ar y wefan.	Diweddariad blynyddol a nodyn atgoffa	
2. Cynnal y rhestr a'i diweddarau ar wefan CBSW	CBSW	Rhestr wedi'i sefydlu	Fel uchod. Rhestr wedi'i gwirio.	Cynnal/Parhau	
3. Chwilio am gyfleoedd a'u hyrwyddo'n weithgar trwy ddefnyddio dulliau cyfathrebu'r Cyngor	CBSW	Yn parhau	Fel uchod.	Cynnal/Parhau	

Thema 3:	Creu Amodau Ffafirol ar gyfer Llwyddiant				
Canlyniad:	Bydd trigolion Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cael cyfle i ymgysylltu a chyfrannu at amcanion a chanlyniadau'r strategaeth hon				
Dangosydd:	Rhan weithredol i drigolion wrth iddynt leisio eu safbwyntiau				
Gweithgaredd:	Arweinydd	Tymor Byr (2017)	2018/2019	Sylwadau	Tymor Hir (2021)
1. Hyrwyddo'r Strategaeth hon i'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus a'u hannog i nodi camau y gallant eu cymryd fydd yn cyfrannu at ganlyniadau'r Strategaeth hon	CBSW – PIP/Swyddog Iaith Gymraeg	Amherthnasol	Ni chynhaliwyd y cyflwyniad arfaethedig i'r BGC yn 2018/19.	Aildrefnu'r cyflwyniad ar gyfer 2019/20.	Mwy o ymwybyddiaeth a chydberchnogaeth o'r strategaeth hon.
2. Ymgynghoriad cyhoeddus blynyddol [ar hyd oes y strategaeth] er mwyn rhoi adborth ffurfiol i'r Cyngor a'i	CBSW— tîm Gwasanaethau Polisi a Pherfformiad	Erbyn Ebrill 2017	Yn 2017/18 gwnaed hyn mewn dau gam: a) Fel rhan o'r 'Wrecsam a Garem'.	Cytunwyd y bydd angen i ni greu grŵp ffocws arlein ar gyfer yr ymgynghoriad nesaf er	Blynyddol

bartneriaid/budd-ddeiliaid ar eu gwasanaethau Cymraeg a pherfformiad.			b) Ymgynghoriad ar-lein. Yn 2018/19 cynhaliodd y Cyngor arolwg ar gyfer y 3 ^{edd} flwyddyn ac rydym wedi gweld cynnydd graddol yn nifer y bobl sy'n cysylltu â'r cyngor drwy'r cyfryngau cymdeithasol a'r wefan yn Gymraeg.	mwyn newid cwestiynau'r ymgynghoriad fel ei fod yn adlewyrchu profiadau siaradwyr Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol yn well.	
3. Sicrhau bod y Cyngor a'r Fwrdeistref Sirol yn cyfrannu'n effeithiol at ddyhead Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru o "Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu".	CBSW a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus	Roedd Arolwg 'Wrecsam a Garem' yn cynnwys ymgynghoriad penodol ar yr iaith Gymraeg	Yn parhau a bydd materion iaith Gymraeg yn cael eu bwydo'n ôl i'r adborth ffurfiol gan y Cyngor fel yr amlinellir yng Nghynllun y Cyngor 2018-2022.	Mae'r iaith Gymraeg yn un o Egwyddorion Cynllunio Strategol y Cyngor.	Yn parhau
4. Gofyn i Fenter Iaith Maelor gynorthwyo gyda'r elfennau sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg yn Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb y Cyngor pan fo'r pwnc dan sylw yn ymwneud â materion yr iaith Gymraeg.	CBSW mewn partneriaeth â MIFFAW [Menter Iaith Fflint a Wrecsam]	Yn parhau	Sefydlir dull mwy strwythuredig ac ystyrir trefniant mwy ffurfiol.	Yn hytrach na gofyn i'r Fenter helpu, mae'r Cyngor yn bwriadu cryfhau a gwella'r ffordd y mae'r iaith Gymraeg yn cael ei hystyried wth gynnal Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb.	Yn parhau

Thema 3:	Creu amodau ffafriol ar gyfer llwyddiant				
Canlyniad:	Creu cymuned lle mae siaradwyr Cymraeg a Saesneg yn dysgu am iaith a diwylliant Cymru				
Dangosydd:	Cynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau'n ymwneud ag iaith a diwylliant Cymru				
Gweithgaredd:	Arweinydd	Tymor Byr (2017)	2018/2019	Sylwadau	Tymor Hir (2021)

<p>1. Codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd i oedolion a phobl hŷn i ddysgu Cymraeg.</p>	<p>CBSW mewn partneriaeth â MIFFAW, Coleg Cambria a Chlwb DAW Wrecsam</p>	<p>Sefydlu rhestr o ddarparwyr</p>	<p>1. Cynnal a Diweddarau'r rhestr ar wefan CBSW 2. Defnyddio enghreifftiau o arfer gorau gan sefydliadau a phartneriaid eraill 3. Chwilio am gyfleoedd a'u hyrwyddo gan ddefnyddio dulliau cyfathrebu'r Cyngor</p>	<p>Rhestr wedi'i diweddarau. Rhennir yr holl gyfleoedd a'r cyrsiau drwy'r 'HWB Digwyddiadau Cymraeg' Facebook a'n cyfrifon corfforaethol. Trefnir y rhain gan MIFFAW, Dysgu Cymraeg, Cymdeithas yr Iaith, Tŷ Pawb, Coleg Cambria a Saith Seren.</p>	<p>Diweddariad blynyddol a nodyn atgoffa</p>
<p>2. Creu perthynas waith agosach gyda S4C, BBC Radio Wales, Radio Cymru ac ITV Wales i annog mwy o raglenni/sylw i'r Fwrdeistref Sirol.</p>	<p>CBSW – Swyddfa'r Wasg a Thîm Marchnata a Hyrwyddo</p>	<p>Trefnu cyfarfodydd erbyn Mawrth 2017</p>	<p>Adeiladu ar lwyddiant 2017/18 roedd yr HWB Cymraeg yn cynnwys darllediadau byw gan BBC Radio Cymru a sylw ar S4C a BBC Radio Wales. Sioe gomedi ddwyieithog lwyddiannus a pherfformiadau gan rai o'r artistiaid Cymraeg gorau sy'n dod i'r amlwg.</p>	<p>Trwy weithio mewn partneriaeth â Ffocws Cymru sefydlwyd digwyddiad Cymraeg blynyddol 'HWB Cymraeg' fel rhan o ŵyl gerddorol sydd wedi hen sefydlu a gynhelir ym mis Mai bob blwyddyn.</p>	<p>Cynyddu sylw</p>
<p>3. Ceisio cyfleoedd i Wrecsam fod yn rhan o ddathliadau cenedlaethol e.e. Llwyddiant Cymru yn y Pencampwriaethau Ewropeaidd.</p>	<p>CBSW - Swyddfa'r Wasg a Thîm Marchnata a Hyrwyddo</p>	<p>Trefnu cyfarfod gyda thîm digwyddiadau Llywodraeth Cymru</p>	<p>Mae buddsoddiad Llywodraeth Cymru o ran Gogledd Ddwyrain Cymru trwy Ffocws Cymru. Comisiynydd y Cyngor nhw i ddarparu dau brif ddigwyddiad yn 2018/19 h.y. Dydd Llun Pawb a'r cynnig iaith Gymraeg uwch fel rhan o Ŵyl Gerddoriaeth</p>	<p>Mae'r Cyngor yn gweithio gyda Ffocws Cymru i Wrecsam fod yn rhan o ddigwyddiadau cenedlaethol. Ffocws Cymru yw unig ddarparwr digwyddiadau Llywodraeth Cymru ar gyfer Gogledd Ddwyrain Cymru.</p>	<p>Cynyddu cyfranogiad</p>

			Mai.		
5. Sicrhau bod y Gymraeg i'w gweld yng nghalon y ganolfan Gelfyddydau a Diwylliant newydd yn Wrecsam	CBSW	Ehangu'r ethos presennol yn Oriel Wrecsam	Cyflwynwyd gwersi Cymraeg am ddim yn Nhŷ Pawb yn Hydref 18. Roedd dau sesiwn bob dydd Sul a phresenoldeb da ynddynt. Cynhaliwyd gorymdaith Dydd Gŵyl Dewi a'r dathliadau yn Nhŷ Pawb yn 2019 ac roedd yn llwyddiannus iawn.	Parhau i gynnal thema iaith a diwylliant Cymru ym mhob digwyddiad ac arddangosfa yn Nhŷ Pawb. Lleoliad Dydd Gŵyl Dewi 2020.	Rhaglen Gymraeg/Cymreig llawn
6. Sicrhau bod y gwasanaethau cymdeithasol/holl ddarparwyr gofal yn y Fwrdeistref Sirol yn cydymffurfio â'r canlyniadau/targedau yn y fframwaith <i>'Mwy na Geiriau'</i>	CBSW/Betsi Cadwaladr	2 ^{il} flwyddyn	Hon fydd y flwyddyn olaf ar gyfer y Fframwaith. Hyd yma ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth am ei barhad na'i olynydd.	Disgwyl am wybodaeth gan Lywodraeth Cymru.	Adolygiad blynyddol

Thema 3:		Creu amodau ffafriol ar gyfer llwyddiant			
Canlyniad:		Mwy o bobl i ryngweithio'n ddigidol gyda'r Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg			
Dangosydd:		Cynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau arlein y Cyngor yn Gymraeg			
Gweithgaredd:	Arweinydd	Tymor Byr (2017)	2018/2019	Sylwadau	Tymor Hir (2021)
1. Llundio a gweithredu cynllun cyfathrebu penodol i annog mwy o bobl i gael mynediad i wasanaethau ar-lein yn y Gymraeg.	CBSW – Tîm Cysylltiadau Cyhoeddus a Gwe a Marchnata	Cynllun i gael ei ddatblygu erbyn Ebrill 2017	Bydd y cynllun yn cael ei adolygu'n chwarterol a'i ddiweddarau a'i ddiwygio i adlewyrchu defnydd/adborth/ystadegau. Mae wedi llwyddo i gynyddu niferoedd ac ymgysylltiad yn 2018/19.	Gyda'r bwriad o lansio gwefan newydd CBSW ym Mehefin 2019 bydd y Cydlynnydd Iaith Gymraeg yn gweithio gyda thîm y we i sicrhau bod y wefan ac unrhyw 'ficro safleoedd' sydd wedi'u hatodi iddo yn cydymffurfio'n llawn o ran iaith a defnydd. Byddwn yn ceisio codi ymwybyddiaeth o'r wefan Gymraeg i gynyddu'r nifer sy'n ei defnyddio.	Adolygiad blynyddol a diweddarariad
2. Creu mwy o ymwybyddiaeth o gyfrifon Facebook a Twitter y Cyngor.	CBSW- Tîm Cysylltiadau Cyhoeddus a Gwe a Marchnata	Datblygwyd yn unol â'r cam gweithredu uchod	Adeiladu ar lwyddiant ymgyrchoedd 2017/18 a 2018/19. Parhau i geisio dod o hyd i ffyrdd newydd ac arloesol o wella ymwybyddiaeth. Yn 2017/18 hyrwyddwyd ein tudalen Facebook Gymraeg i gynyddu dilynwyr a rhyngweithio. Mae hyn wedi cynyddu fesul blwyddyn.	Parhau i gynyddu cynulleidfa Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol. Nid yw Twitter yn cefnogi'r Gymraeg o ran hyrwyddo ac felly rydym yn dibynnu ar dwf organig sydd wedi gwella yn sgil llif cyson o erthyglau newyddion a gyhoeddwyd ar ein blog newyddion.	Adolygiad chwarterol drwy fonitro SMP

3. Ceisio cyfleoedd pellach i annog mwy o bobl i gael mynediad i wefan y Cyngor yn y Gymraeg a chynyddu'r nifer o weithrediadau Cymraeg.	CBSW- Tîm Gwe	Datblygwyd yn unol â'r cam gweithredu uchod	Fel uchod	Defnyddio lansiad cyhoeddus y wefan newydd yn ystod haf 2019 i annog mwy i'w defnyddio drwy gyfrwng y Cymraeg.	Adolygiad chwarterol drwy fonitro SMP
4. Sicrhau bod materion y Gymraeg yn cael eu hystyried ar ddechrau unrhyw ymgyrchoedd ar-lein/ar y we yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd yr Iaith Gymraeg.	CBSW – pob adran gyda chymorth y tîm Cysylltiadau Cyhoeddus a Gwe a Marchnata	Drafftio a chyhoeddi canllaw	Diweddarau ac adolygu'r canllawiau gan ystyried adborth/dadansoddiad	Mae hyn bellach yn rhan o broses y tîm Marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus wrth gysylltu ag adrannau eraill ar gyfer eu hymgyrchoedd hyrwyddo arlein.	Adolygiad blynyddol

Thema 3	Creu amodau ffafriol ar gyfer llwyddiant				
Canlyniad:	Mwy o bobl yn y Fwrdeistref Sirol i nodi eu bod yn siarad Cymraeg				
Dangosydd:	Pan mae pobl a arolygwyd yn y Fwrdeistref Sirol yn ystyried eu hunain yn Gymry (nid o reidrwydd yn siarad Cymraeg)				
Gweithgaredd:	Arweinydd	Tymor Byr (2017)	2018/2019	Sylwadau	Tymor Hir (2021)
1. Codi proffil mentrau lleol a chenedlaethol i gynyddu'r ymdeimlad o 'Gymreictod' yn y Fwrdeistref Sirol e.e. Gemau Rygbi/Pêl-droed Cymru.	CBSW ar y cyd â'i bartneriaid	Nodi cyfleoedd a chreu rhestr	Cynnal a diweddarau'r rhestr. Digwyddiadau penodol wedi'u cynllunio a'u hariannu o gyllideb yr iaith Gymraeg e.e. Hwb Cymraeg, Ffocws Cymru. Defnyddiwyd Gemau Rygbi'r Chwe Gwlad a phencampwriaethau pêl-droed UEFA fel cefndir ar gyfer mwy o 'Gymreictod' yn y Fwrdeistref.	Mae'r camau gweithredu hyn (h.y. digwyddiadau cenedlaethol) yn ategu a hybu'r iaith Gymraeg a digwyddiadau fel Dydd Gŵyl Dewi, Tŷ Pawb, yr Amgueddfa, Hwb ayb.	Ymdeimlad cynyddol o 'Gymreictod' a balchder a chefnogaeth i iaith a diwylliant Cymru yn y Fwrdeistref Sirol.
2. Ceisio datblygu gweithgareddau a mentrau sy'n	CBSW mewn partneriaeth â	Y Gymraeg yn cael ei	Ffurflen comisiynu digwyddiadau yn rhoi	Yr iaith Gymraeg yn cael ei hystyried ar ddechrau	Cynyddu cyfranogiad

apelio i drigolion sy'n siarad Cymraeg a'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg.	MIFFAW	hystyried o'r dechrau pan fydd digwyddiad yn cael ei gynllunio	mwy o bwyslais ar yr iaith Gymraeg / diwylliant.	pob digwyddiad sy'n cael ei gynllunio a rhaid dangos hynny yn y ffurflenni comisiynu digwyddiad corfforaethol a gwblhawyd.	
3. Hyrwyddo mentrau sy'n codi ymwybyddiaeth genedlaethol e.e. <i>'Shwmae/Su'mae, Iaith ar Daith</i>	Holl Fudd-ddeiliaid	Drwy gyfryngau cymdeithasol /blog newyddion CBSW	Unwaith eto eleni cefnogwyd Dydd Miwsig Cymru a'r cynllun iaith ar Daith. Hefyd hyrwyddwyd 'Cymraeg yn y Gweithle' Llywodraeth Cymru a manteision addysg cyfrwng Cymraeg.	Sicrhau bod y Cyngor yn ceisio bod yn ymwybodol o'r cynlluniau hyn ac yn defnyddio'i ddulliau cyfathrebu i wella ymwybyddiaeth.	Monitro a thyfu
4. Parhau i gynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan yng ngorymdaith flynyddol Dydd Gŵyl Dewi	MIFFAW [Menter Iaith Fflint a Wrecsam] gyda chefnogaeth CBSW	500	Nid yw 1,000 yn ymddangos yn uchelgeisiol yn y tymor hir. Roedd y presenoldeb yn 2018 tua 1,000. Yn 2019 ein nod fydd cynnydd o 10% a pharhau tan 2021.	Mae'r Cyngor yn parhau i gomisiynu MIFFAW i ddarparu'r digwyddiad hwn ar ei ran. Roedd 3,600 yn bresennol yn y digwyddiad sy'n dda iawn o ystyried bod y digwyddiad eleni yn ystod gwyliau ysgol. Roedd y nifer yn uwch na'r targed.	1,500
5. Datblygu rhaglen o ddigwyddiadau cerddoriaeth Gymraeg a Chymreig yn y Fwrdeistref Sirol.	CBSW a'i bartneriaid/budd-ddeiliaid	Datblygu rhestr	Mae'r Cydlynnydd Iaith Gymraeg wedi creu tudalen Facebook newydd 'Hwb Digwyddiadau Cymraeg' i restr a hyrwyddo'n benodol bob digwyddiad Cymraeg yn ardal Wrecsam a Sir y Fflint.	Fel y nodwyd, mae cynllunio ar gyfer digwyddiadau yn yr iaith Gymraeg ar y gweill a bydd yn parhau.	Rhaglen lawn

6. Gwneud asesiad risg cydraddoldeb o'r cychwyn gydag unrhyw weithgareddau/digwyddiadau yn y Fwrdeistref Sirol i sicrhau bod materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg yn cael eu hystyried o'r cychwyn.	CBSW - Tîm Marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus a'r Tîm Digwyddiadau	Ar gyfer holl ddigwyddiadau CBSW	Rheolwaith – rŵan yn rhan o'r ffurflen comisiynu digwyddiadau.	Gweler yr ymateb i bwynt 2 uchod.	Cynnal
--	---	----------------------------------	--	-----------------------------------	--------

Thema 3:	Creu amodau ffafriol ar gyfer llwyddiant				
Canlyniad:	Plant yn dysgu manteision dysgu Cymraeg ar gyfer gwaith				
Dangosydd:	Mwy o swyddi'n cael eu hysbysebu fel rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol, yn arbennig ar lefel mynediad a gradd				
Gweithgaredd:	Arweinydd	Tymor Byr (2017)	2018/2019	Sylwadau	Tymor Hir (2021)
1. Datblygu cynllun prentisiaeth fodern yn y Gymraeg	CBSW – Tîm Hyfforddi AD	Cytuno ar Gylch Gorchwyl	Yn 2017, creodd y Cyngor 2 swydd prentis modern ond ni wnaed unrhyw benodiadau. Yn 2017/18 hysbysebwyd ar gyfer y swydd hon eto ond yn anffodus ni chafwyd unrhyw geisiadau.	Ar gyfer 2019/20 byddwn yn gweithio gyda Gyrfa Cymru, Coleg Cambria ac Ysgol Morgan Llwyd i weld p'un ai y gallwn ni sicrhau lleoliad.	Penodi prentis modern sy'n siarad Cymraeg bob blwyddyn.
2. Trefnu diwrnodau Cymraeg yn y Gweithle ar gyfer Blwyddyn 6 i ddangos manteision addysg ddwyieithog iddynt	CBSW – Adran Addysg	Newydd	Ar 13/04/18 cafodd plant o bedair ysgol gynradd wahanol yn Wrecsam gyfle i siarad gyda chyflogwyr o bob rhan o Ogledd Cymru mewn diwrnod Cymraeg yn y Gweithle yn Ysgol y Grango.	Cynhelir y digwyddiad eto yn 2019 mewn tri lleoliad. Mae dros 300 o blant eisoes wedi cadarnhau eu bod yn cymryd rhan.	Yn parhau i ddarparu

			<p>Cafodd y disgyblion gyfle i siarad gyda gweithwyr o wahanol gwmnïau preifat a chyhoeddus yn cynnwys CBSW, Dŵr Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Read Construction a Choleg Cambria.</p> <p>Yn y digwyddiad rhwydweithio cyflym cafodd grwpiau o ddisgyblion gyfle i dreulio sesiynau 10 munud gyda phob grŵp o gyflogeion a'u holi ynghylch pethau fel eu gwaith o ddydd i ddydd, faint o Gymraeg maen nhw'n ei defnyddio yn ystod eu diwrnod gwaith a'r mathau o sgiliau a chymwysterau sydd eu hangen i wneud eu swydd.</p>		
3. Codi mwy o ymwybyddiaeth ymysg siaradwyr Cymraeg o'r ddarpariaeth ddwyieithog sydd ar gael a'r swyddi ar gael sy'n gofyn am sgiliau dwyieithog.	CBSW mewn partneriaeth â Choleg Cambria	Sefydlu methodoleg	Sefydlu p'un ai y gall CBSW a'r BGC ddatblygu cynllun gweithredu gyda Choleg Cambria.	Mae'r Cyngor wedi hysbysebu nifer o swyddi rheng flaen lle mae'r Gymraeg yn hanfodol sy'n addas ac wedi'u hanelu at y rhai sydd wedi cael addysg	Cynnydd yn nifer y dysgwyr Cymraeg

				cyfrwng Cymraeg. Yn ystod 2019/20 bydd angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg sy'n gadael yr ysgol yn ymwybodol o fanteision addysg ddwyieithog. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud ar y cyd ag Adran Addysg yr ALL.	
4. Y Cyngor a chyrrff cyhoeddus eraill i sicrhau swyddi ar gyfer siaradwyr Cymraeg sy'n gadael yr ysgol nad ydynt yn dymuno parhau â'u hastudiaethau academaidd ac sy'n awyddus i gael mynediad i'r farchnad swyddi leol	CBSW/Coleg Cambria/BGC	Sefydlu llinell sylfaen	Bydd yr ALL, mewn partneriaeth a'r holl ysgolion uwchradd, Coleg Cambria, Gyrfa Cymru a diwydiannau'n ceisio hyrwyddo a chodi proffil y manteision, yn ogystal â'r cyfleoedd o ran gyrfa a chyflogaeth.	Gweler uchod. Yn ystod 2019/20 bydd angen mwy o waith i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg sy'n gadael yr ysgol yn ymwybodol o fanteision addysg ddwyieithog.	Mwy o gyfleoedd

*Nid yw'r Safonau'n berthnasol i ysgolion